OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 6 (Cy. 3)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 23 (Rogiet), Cas-gwent i Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *15 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 23 (Rogiet), Cas-gwent i Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ionawr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 15 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M48 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiad a chyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Atal Dros Dro

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r draffordd wedi eu

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.**—(1) Nid yw'r gwaharddiad na'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Ionawr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfewidfa Newhouse) hyd at y man lle y mae'n uno â thraffordd yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet).

## ATODLEN 2
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n gwyro oddi wrth draffordd yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet) hyd at ei thrwyniad â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).